



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

SeneddTai@senedd.cymru

18/06/2025

Annwyl Gadeirydd,

Ymgynghoriad: Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)

Diolch am y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad uchod. Rydym yn ymateb yng nghydestun un o uchelgeisiau strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru i warchod cynaliadwyedd cymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol naturiol. Rhan bwysig o wneud hynny yw galluogi a hwyluso siaradwyr Cymraeg i barhau i fyw yn y cymunedau hyn.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn y Memorandwm Esboniadol yn cydnabod y gall digartrefedd gael effeithiau negyddol a thrawmatig ar unigolyn, gyda goblygiadau cymunedol, diwylliannol ac ieithyddol ehangach, yn enwedig i gymunedau Cymraeg eu hiaith. Nodir y gall digartrefedd arwain at ddadleoli, a all darfu ar gymunedau Cymraeg eu hiaith yn bennaf. Croesawn, felly, fwriad Adran 6 y Bil i ddiwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau llety ar gyfer pobl â chysylltiad lleol â Chymru. Gallai hyn leihau'r risg o ddadleoli siaradwyr Cymraeg o'u cymunedau. Trwy roi cyfle iddynt aros yn eu hardal leol, mae'n fwy tebygol y byddant yn gallu parhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd ac y bydd hyn yn cyfrannu at hyfywedd y Gymraeg yn yr ardal.

Un agwedd ar Adran 6 y dymunwn fwy o wybodaeth amdano yw is-adrannau (8) a (9) sy'n ymwneud â charcharorion. Maent yn nodi dyletswydd i ddarparu llety pan gaiff carcharor ei ryddhau. Nid yw'n glir, fodd bynnag, a yw'r ddyletswydd yn berthnasol os nad oes gan yr unigolyn gysylltiad lleol â Chymru. Ein pryder, petai'r ddyletswydd yn berthnasol mewn achos lle nad oedd cysylltiad lleol, yw y gallai unigolion di-Gymraeg heb gysylltiad â Chymru fod yn gymwys am lety mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, a allai effeithio ar

Comisiynydd y Gymraeg

Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221

post@comisiynyddygybraeg.cymru

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.cymru

Welsh Language Commissioner

Unit 2, Block C
Victoria Dock
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221

post@comisiynyddygybraeg.cymru

Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

hyfywedd y Gymraeg yn yr ardaloedd hynny. Byddem yn ddiolchgar o gael eglurhad ar y mater hwn a pa un ai a ystyriwyd hyn yn yr Asesiad Effaith Integredig.

Yn ei adroddiad, [Grymuso Cymunedau Cryfhau'r Gymraeg](#), argymhellodd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg y dylai awdurdodau lleol ac awdurdodau cynllunio ystyried a ellir datblygu modelau, o ran gosod tai cymdeithasol, lle gallai'r Gymraeg fod yn un ystyriaeth gadarnhaol. Ymatebodd y Llywodraeth trwy ddweud bod rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru, wrth benderfynu ar eu cynlluniau penodol, roi sylw i ganllawiau Llywodraeth Cymru, Dyrannu Llety a Digartrefedd. Ymrwymodd y Llywodraeth i ddiwygio'r canllawiau i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amcanion *Cymraeg 2050*. Dywedodd y byddai hefyd yn darparu canllawiau pellach i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar ystyried y Gymraeg wrth osod tai cymdeithasol. Rydym yn cefnogi'r ymrwymiad hwn ac yn galw ar y Llywodraeth i gynnwys yn y Bil yr egwyddor fod y Gymraeg yn ystyriaeth gadarnhaol wrth ddyrannu tai cymdeithasol.

Yn Adran 12 (2) nodir bwriad i ddiwygio Deddf Tai 2014 i roi pŵer i Weinidogion Cymru drwy reoliad bennu amgylchiadau "(e) sydd i'w trin fel amgylchiadau arbennig sy'n cysylltu person ag ardal, neu nad ydynt i'w trin felly." Dylai'r Llywodraeth ddefnyddio'r pŵer hwnnw i bennu'r gallu i siarad Cymraeg ymhlith yr amgylchiadau hynny, yn achos ardaloedd neu gymunedau â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg.

Yr eiddoch yn gywir,

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg



**Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner**